**Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru**

**Bwrdd Ymgynghorol Sector Preifat**

**Cylch Gorchwyl**

## Yn bresennol

Bydd y canlynol yn mynychu'r Bwrdd Ymgynghorol:

- Cynrychiolwyr y Sector Preifat
- Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru (Cadeirydd) neu ei gynrychiolydd enwebedig
- Cyfarwyddwyr Rhanbarthol Cynghorau Cyfansoddol sy'n gyfrifol am ardaloedd SWWCJC (er mwyn rhoi cyngor/arweiniad i Brif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru)
- Cynrychiolydd swyddogion Awdurdodau Parciau Cenedlaethol lle mae materion dan sylw yn ymwneud â chynllunio strategol
- Unrhyw wahoddedigion y Prif Weithredwr
- Pennaeth Polisi a Gweinyddiaeth Busnes Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru

Os na fydd unigolyn yn gallu bod yn bresennol, dylid rhoi gwybod i'r Prif Weithredwr (drwy'r adran Gwasanaethau Democrataidd) cyn gynted â phosibl.

## Cadeirydd

Bydd y Bwrdd Ymgynghorol yn cytuno ar Gadeirydd y Bwrdd Ymgynghorol a bydd yn cael ei gymeradwyo bob blwyddyn gan y Bwrdd Ymgynghorol.

Bydd Cadeirydd y Bwrdd Ymgynghorol yn cael ei gyfethol i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol heb hawl pleidleisio yn flynyddol, a bydd y penodiad hwnnw yn para am flwyddyn ac yn amodol ar adnewyddu yn ôl disgresiwn y Cyd-bwyllgor Corfforaethol.

## Amlder y Cyfarfodydd

Bydd y Bwrdd Ymgynghorol yn cyfarfod bob chwarter yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarfodydd ychwanegol a fydd yn cael eu galw i fynd i'r afael â materion penodol.

Lle bydd angen cyfarfod arbennig, caiff hwn ei ymgynnull gan Brif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Corfforaethol.

Oni hysbysir i'r gwrthwyneb, bydd pob cyfarfod yn cael ei gynnal o bell drwy Microsoft TEAMS

**Pwrpas y Bwrdd Ymgynghorol**

Pwrpas y Bwrdd Ymgynghorol yw:

a) Cynnal partneriaeth ymgynghorol agos â Dinas-Ranbarth Bae Abertawe a Swyddogion Gweithredol yr holl sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol sy'n cefnogi cynllunio datblygiad strategol, cynllunio trafnidiaeth, llesiant economaidd ac ynni.
b) Rhoi cipolwg allanol ar y farchnad a gwybodaeth benodol am bynciau a mentrau allweddol, a deallusrwydd, i gefnogi'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol ac aliniad i strategaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol.
c) Sefydlu grwpiau gorchwyl strategol pan fo'n ofynnol i ddarparu cyngor â ffocws, yn enwedig ynghylch cyfleoedd ariannu ysgogiad fel Innovate UK neu Gronfa Strategol Ranbarthol.
d) Darparu cyflwyniadau i'r farchnad, y rhwydwaith, buddsoddiad ac ariannu.
e) Sicrhau bod cydweithio'n ychwanegu gwerth a sicrhau'r potensial mwyaf posibl gyda chyfranogiad a chysylltiadau ymhlith rhanddeiliaid allweddol.
f) Ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid presennol a phartneriaid posibl i nodi cyfleoedd a risgiau'r farchnad.
g) Sicrhau cyfathrebu clir a thryloyw gyda'r trefniadau llywodraethu a chyrff allanol.
h) Gweithredu fel llysgenhadon rhanbarthol y Cyd-bwyllgor Corfforaethol i godi a hyrwyddo proffil y rhanbarth ar lefel genedlaethol ac o fewn y gymuned fusnes.
i) Rhoi cyngor ac arweiniad drwy gydol y broses o ddatblygu strategaeth ranbarthol a mentrau buddsoddi allweddol.
j) Darparu arweinyddiaeth, mewnwelediad a deallusrwydd ar draws y rhanbarth ac mewn perthynas â marchnadoedd allanol ac amgylcheddau polisi gwleidyddol.

Bydd gan Gynrychiolwyr y Sector Preifat hawl i fynd i unrhyw is-bwyllgor o'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol i gyfrannu (heb hawl pleidleisio) ar gais Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Corfforaethol.

**<u>Gwrthdaro Buddiannau</u>**

Bydd holl gynrychiolwyr y sector preifat yn llofnodi Cytundeb Ymgynghorwyr. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r rôl ymgynghori yn arwain at ddylanwad gormodol gan ymgynghorwyr y sector preifat dros gyfeiriad strategol y rhanbarth, a allai yn ei dro fod o fantais i sefydliadau sy'n gysylltiedig ag ymgynghorwyr y sector preifat.

Er mwyn osgoi amheuaeth lle ceir gwrthdaro rhwng y cylch gorchwyl hyn ac unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol neu ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU, bydd y darpariaethau deddfwriaethol a'r canllawiau hynny yn cael blaenoriaeth.

**Cofnodion**

Bydd y sawl sy'n cymryd cofnodion yn cofnodi'r cyfarfod a bydd copi o'r cofnodion yn cael eu hanfon ymlaen at holl aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol a Phrif Weithredwr yr awdurdodau sy'n ffurfio'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol ac yn cael eu nodi'n ffurfiol yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn y dyfodol.

Bydd cofnodion yn cael eu cadw yn unol â'r gofynion perthnasol sy'n berthnasol i gadw cofnodion.

Bydd cofnodion yn drosolwg o'r eitemau a drafodwyd ac unrhyw gamau gweithredu sy'n codi yn unol â hynny.